# Yr her:

Tymor newydd………Thema newydd! Croeso i thema 'Y Sŵ Bach'. Beth am i ni ymgyfarwyddo yn gyntaf ag anifeiliaid y sŵ ynghyd â waith milfeddyg wrth ddarllen ac archwilio llyfr stori 'Milfeddyg y Sŵ'? Sbardun wych i ddechrau ein taith y tymor yma.



## Pwyntiau trafod i rieni:

- Beth yw eich hoff anifail sŵ? Pam?
- Ydych chi'n gwybod cynefin wreiddiol eich hoff anifail sŵ?
- Beth mae eich hoff anifail sŵ yn bwyta?
- Ydych chi'n gwybod enwau babanod eich hoff anifail sŵ?
- Allwch chi ddisgrifio eich hoff anifail sŵ? e.e Pa liw ydyn nhw? Sawl coes sydd ganddynt? Sut maent yn symud? Pa sŵn maent yn gwneud? Ayyb.

YSGOL GYMRAEG PARC Y TYWYN
Nid da lle gellir gwell

# Y Sŵ Bach (1) (Bl 1 & 2)

## Rhaid gwneud...

| | | |
|---|---|---|
| • Ymarfer dysgu geriau sillafu. Mae'r geiriau ar wefan yr ysgol i'w ymarfer. Cwblhewch y prawf ar SbellBlast ac arbed i'ch ffeil.<br>• Darllen yn reolaidd– cofiwch drafod yr hyn a ddarllenoch – cymeriadau, rhagfynegiadau, trefnu digwyddiadau, ail-ddweud y stori, chwilio am ystyr geiriau anghyfarwydd. | • Ymarfer tablau mathemateg (Bl 1 - tabl 1, 2, 5 a 10/Bl2 - tablau 1, 2, 5 a 10 i ddechrau a thabl 3 fel her!)<br>• Mathemateg - Bondiau rhif hyd at 100 - adio a thynnu.<br>• Adnabod a chyfrif cyfansymiau arian<br>• Adnabod amser e.e. o'r gloch, hanner awr wedi, chwarter awr wedi a chwarter i. | • Joe Wicks - sesiynau ar 'You Tube' yn fyw 9yb (Cofiwch ofyn am ganiatad rhieni i fynd ar 'YouTube')<br>• Cosmic Kids Yoga – sesiynau ar 'YouTube'<br>• Sgwrsio gyda'ch rhieni am eich diwrnod a sut rydych yn teimlo.<br>• Beth am helpu o amgylch y tŷ? e.e. gwneud eich gwely, gosod y bwrdd, helpu yn yr ardd, helpu paratoi'r bwyd ayyb. |

## Dylech wneud...

| Llythrennedd | Rhifedd | Thema |
|---|---|---|
| Edrychwch ar glawr y llyfr 'Milfeddyg y Sŵ'. Beth ydych yn ei weld? Ble mae'r awdur/awdures? Ble a beth yw'r broliant? Beth ydych chi'n credu fydd yn digwydd yn y stori (cyn ei ddarllen)? Yna, ewch ati i'w ddarllen a thrafod rhannau'r stori. Pwy yw eich hoff/cas gymeriad? Beth yw eich hoff rhan? (Adnodd 1) | Mewngofnodwch i HWB – ysgrifennwch rhestr o ddyddiau'r wythnos a misoedd y flwyddyn. Cofiwch fod angen sillafu a threfnu yn gywir.<br>*HER – Beth am nodi sawl diwrnod sydd ym mhob mis o'r flwyddyn? | Ymchwiliwch i sut mae gwahanol anifeiliaid yn symud. Creuwch ddilyniant o symudiadau i bara rhwng 10 ac 20 eiliad. Beth am greu fideo a lan-lwytho i HWB? Bydd eich athrawon yn dwli gweld eich creadigrwydd! |
| Crëwch map meddwl am stori 'Milfeddyg y Sŵ'. Meddyliwch am yr anifeiliaid gwahanol, yr offer a ddefnyddiwyd, geiriau gofalu, gwisgoedd a digwyddiadau. Ychwanegwch luniau i gyd-fynd a'ch geiriau. | Ewch ati i gasglu rhestr o anifeiliaid sy'n cysgu yn ystod y dydd ac yna rhestr o anifeiliaid sy'n cysgu yn ystod y nos. Didolwch rhain gan ddefnyddio e.e. tabl / diagram venn ayyb.<br>*HER – Ydych chi'n gallu meddwl sut i ddidoli anifeiliaid mewn ffyrdd gwahanol e.e. nifer y coesau, adenydd, cynefin, cynffon ayyb? | Ewch ati i gasglu data hoff anifail y sŵ eich teulu.<br>Mewngofnodwch i'ch cyfrif HWB a chofnodwch rhain ar graff bar. Gallwch chi hyd yn oed danfon neges a gofyn eich athro / athrawes beth yw ei hoff anifail sŵ nhw? |
| Defnyddiwch y cardiau lluniau a ddarparwyd. (Adnodd 2). Trefnwch y lluniau yma ac yna ysgrifennwch brawddegau i gyd-fynd a phob llun.<br>*HER – Beth am ail-ysgrifennu'r stori cyfan gan ddefnyddio geiriau eich hun? | Dychmygwch mai chi yw'r milfeddyg. Crëwch ddyddiadur amser un diwrnod yn cofnodi beth rydych yn gwneud yn ystod y dydd e.e. 7 y.b Codi o'r gwely ac ymolchi, 7.15 y.b Gwisgo gwisg milfeddyg, 7.30 y.b Bwyta brecwast, 8.00 y.b Cyrraedd y sŵ, 8.15 y.b Paratoi bwyd i'r eliffantod ayyb.<br>*HER – Beth am ysgrifennu dyddiadur amser am bob ddiwrnod am wythnos gyfan? | Casglwch deunyddiau naturiol. Ewch ati i greu collage naturiol o anifail y sŵ. Cofiwch i dynnu lun o'ch celf cŵl a'i rhoi ar HWB / Trydar. Byddwn yn dwli gweld eich campweithiau creadigol! |

| Gallaf wneud... | | |
|---|---|---|
| Heriau LEGO<br>Calendr Caredigrwydd<br>Llyfrau sain David Walliams<br>Newsround – darllen y newyddion diweddaraf<br>Science Investigations – STEM website<br>stemsational.com<br>Adnoddau twinkl–Mynychwch y wefan am ddim<br>www.twinkl.co.uk/offer yn defnyddio côd<br>UKTWINKLHELPS<br>Zumba Kids<br>Gwefan Tric a Chlic<br>http://mrsrobertscymru.wordpress.com/adnoddau-2/ | Minecraft<br>Cymuned y Sgarlets– Sgiliau Mathemateg<br>Carol Vorderman – 'My Maths School'<br>Cip ar Fathemateg<br>SGILIAU – gemau i'w chwarae adref/clwb ysgol ar Facebook<br>Orielodl – fideo cam wrth gam<br>Llifo'n Llawen – Yoga<br>Just Dance – 'Youtube'<br>Amser Stori Atebol – 'You Tube<br>En/sonamlyfra.cymru/llyfrau-llafar<br>http://llyfrgelloedd.cymru<br>http://www.s4c.cymru/cy/ysgol-cyw<br>http://www.erw.cymru/newyddion/readaxation-adnoddau-yn-rhad-ac-am-ddim/ | Dawnsio gyda Oti Mabuse<br>PBSkids.org - Gemau Darllen i blant<br>BBC Bitesize – darlledu fyw yn ddyddiol<br>Hour of Code<br>Gwefan TopMarks Mathemateg<br>Gwefan MathsFrame Mathemateg<br>mathsalamanders.com<br>Traed Bach Sionc (Busy Feet) – Youtube<br>Llyfrau Coeden Darllen Rydychen –HWB<br>Kids.nationalgeographic.com/animals/<br>Countryfile.com<br>Animalfactguide.com<br>Zoolabuk.com |